

# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

---

Lleoliad y cyfarfod:

Y Siambr – Y Senedd

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 14 Tachwedd 2017

Amser y cyfarfod: 12.30

## 99(v4)

---

### 1 Teyrngedau i Carl Sargeant AC

(60 munud)

*Yn dilyn yr eitem hon, bydd y Llywydd yn gohirio'r cyfarfod am 30 munud.*

### 2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog – Gohiriwyd o 7 Tachwedd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

[Gweld y Cwestiynau](#)

### 3 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

[Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)

Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân:

(15 munud)

### 4 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 – Gohiriwyd o 7 Tachwedd

NDM6554 [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)



Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Medi 2017.

**Dogfennau ategol**

[Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Cofrestru\) \(Cymru\) 2017](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) (Saesneg yn unig)

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#)

## **5 Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 – Gohiriwyd o 7 Tachwedd**

**NDM6553** [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Hydref 2017.

**Dogfennau ategol**

[Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Datganiadau Blynyddol\) \(Cymru\) 2017](#)

[Memorandwm Esboniadol](#) (Saesneg yn unig)

[Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol](#)

## **6 Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 – Tynnwyd yn ôl**

## **7 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016–17 – Gohiriwyd o 7 Tachwedd**

(60 munud)

**NDM6550** [Jane Hutt \(Bro Morgannwg\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016–17.

## Dogfennau ategol

[Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016–17](#)

[Trawsgrifiad, Cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 18 Hydref 2017 – Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016–17](#)

## 8 Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2016–17

(60 munud)

NDM6560 [Julie James \(Gorllewin Abertawe\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2016–17, sy'n manylu ar y gwaith y mae'r Comisiynydd wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

Gwelliant 1 [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi datblygiadau cadarnhaol yn nefnydd y Gymraeg o dan y gyfundrefn safonau iaith, a reolir gan Gomisiynydd y Gymraeg, ar ôl dim ond blwyddyn iddynt ddod i rym, sy'n cynnwys:

a) bod 76 y cant o siaradwyr Cymraeg o'r farn bod gwasanaethau Cymraeg sefydliadau cyhoeddus yn gwella;

b) bod 57 y cant o bobl yn credu bod cynnydd yn y cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg;

c) cynnydd o 50 y cant yn 2015–16 i 96 y cant yn 2016–17 yn nifer y gwasanaethau ffôn lle cynigir dewis iaith yn ddiodyn; a

d) cynnydd o 32 y cant yn 2015–16 i 45 y cant yn 2016–17 yn nifer y cynghorau sy'n cynnig pob tudalen ar eu gwefan yn Gymraeg.

## Gwelliant 2 [Rhun ap Iorwerth \(Ynys Môn\)](#)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried diddymu rôl Comisiynydd y Gymraeg fel yr amlinellir ym Mhapur Gwyn Bil y Gymraeg.

### Dogfen Ategol

[Adroddiad Blynyddol Comisiynydd y Gymraeg 2016–17](#)

## 9 Cynnig i dderbyn argymhelliad y Prif Weinidog ar gyfer Ei Mawrhydi i benodi Cwnsler Cyffredinol

(15 munud)

### NDM6561 [Carwyn Jones \(Pen-y-bont ar Ogwr\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol a Rheol Sefydlog 9.1, yn cytuno ar argymhelliad gan Brif Weinidog Cymru i Ei Mawrhydi benodi Jeremy Miles AC fel Cwnsler Cyffredinol.

## 10 Cynnig i amrywio'r drefn ystyried ar gyfer gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru)

(5 munud)

### NDM6562 [Julie James \(Gorllewin Abertawe\)](#)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn canlynol:

Adrannau 2 – 94

Atodlen 1

Adran 1

Teitl Hir

Dogfen ategol

[Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#)

**11 Dadl: Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau – Gohiriwyd tan  
21 Tachwedd**

**12 Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig  
(Cymru) – Gohiriwyd tan 28 Tachwedd**

**13 Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 15 Tachwedd  
2017